Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Cynllunio ar gyfer y gweithlu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Targedau

Os ydym am gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio yn Gymraeg, mae angen i ni sicrhau cyflenwad digonol o athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â'r targedau hirdymor a osodwyd yn Cymraeg 2050, mae Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21 yn cynnwys targedau ar gyfer cynyddu'r gweithlu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021:

Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	
llinell sylfaen 2015/16 2,900	**targed 2021** 3,100
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc	
llinell sylfaen 2015/16 500	**targed 2021** 600
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	
llinell sylfaen 2015/16 1,800	**targed 2021** 2,200

Sylwer: Wedi'i seilio ar ddata o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD).

Mae'r data cyfredol ynghylch nifer y myfyrwyr sy'n cymhwyso i gael addysgu ar ôl cwblhau cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) fel a ganlyn.

	2016/17	
	Nifer	**%**
Wedi cymhwyso i addysgu plant cynradd ar ôl AGA, ac yn gallu addysgu'n ddwyieithog/yn Gymraeg	115	18
Wedi cymhwyso i addysgu plant uwchradd ar ôl AGA, ac yn gallu addysgu Cymraeg fel pwnc	30	6
Wedi cymhwyso i addysgu plant uwchradd ar ôl AGA, ac yn gallu addysgu'n ddwyieithog/yn Gymraeg	80	16

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch

Er ein bod yn recriwtio nifer digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sector cynradd, os ydym am gyrraedd ein targedau ar gyfer athrawon uwchradd, mae angen gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall.

Casglu data am y Gweithlu Ysgolion yn y dyfodol

Ar hyn o bryd, dim ond hyn a hyn o wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chasglu drwy Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ynghylch sgiliau Cymraeg y gweithlu ysgolion ac ynghylch faint o ddefnydd y maent yn ei wneud o'r Gymraeg wrth addysgu.

Bydd 'Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017', a ddaeth i rym ar 31 Hydref 2017, yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu mwy o wybodaeth am y gweithlu addysg. Bydd yn darparu data sy'n fwy cywir, yn fwy cadarn ac yn fwy amserol ar gyfer llunio sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a chynllunio'r gweithlu'n fwy effeithiol yn genedlaethol ac yn lleol.

Mae'r wybodaeth sydd i'w chasglu'n cynnwys casglu, ar lefel unigolion, sgiliau'r gweithlu ysgolion yn y Gymraeg, eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a faint o amser sy'n cael ei dreulio ganddynt yn addysgu yn Gymraeg. Bydd yn cefnogi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'r angen i gynyddu gallu'r system i ddiwallu'r angen i ehangu addysg a hyfforddiant yn y Gymraeg. Bydd yn golygu y gellir cynllunio'r gweithlu addysg yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod digon o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyfrifiad Blynyddol cyntaf ar Weithlu Ysgolion wedi'i amserlennu ar gyfer mis Tachwedd 2019.

Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddwn yn cyflawni ein huchelgais ar gyfer dysgwyr, fel y'i nodwyd yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl drwy safonau o ansawdd uchel ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth yn ein holl ysgolion. Gwnawn hyn mewn partneriaeth â'r holl rai sydd â rhan i'w chwarae yn y broses o wireddu'r gobeithion hyn ar gyfer system addysg Cymru.

Yn 2016-17, ni chyrhaeddwyd y targedau cofrestru o ran nifer yr hyfforddeion ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yn y sectorau is-raddedig nac ôl-radd: roedd y lefel recriwtio ar gyfer rhaglenni cynradd tua 90% o'r targed, ond 66% o'r targed a ddenwyd i raglenni uwchradd.

Ar hyn o bryd nid oes gennym dargedau ar gyfer darpariaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod darpariaeth addas drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ledled Cymru. Mae CCAUC yn monitro'r sefyllfa o ran cofrestru ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac maen nhw'n adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Mae Meini Prawf Achredu AGA, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, wedi cael eu hailystyried ac maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau AGA fod yn eglur ynghylch gweithgarwch yn eu rhaglenni sy'n datblygu'r Gymraeg yn y ddwy ffordd a ganlyn.

1) Darpariaeth yn Gymraeg gan y bartneriaeth i'r rheini sydd am ddilyn gyrfa mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog. Lle bydd partneriaethau am ddarparu AGA i fyfyrwyr sy'n bwriadu gweithio mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog, dylid nodi'r canlynol yn glir:

2) Darpariaeth gan y bartneriaeth i wella sgiliau Cymraeg holl fyfyrwyr AGA.

Grymuswyd Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") i achredu rhaglenni AGA unigol drwy sefydlu'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ystyried yn fwy penodol sut y bydd rhaglenni AGA yn gwella ansawdd darpariaeth AGA. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd yn ceisio sicrhau bod unrhyw raglen yn heriol, bod ganddi hygrededd a'i bod yn briodol yn broffesiynol.
Mae Bwrdd Achredu Addysg Athrawon y Cyngor wedi cwblhau pob ymweliad asesu achrediad ar amser. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i benderfyniadau ynghylch achrediad. Bydd partneriaethau AGA yn cael gwybod canlyniadau'r broses achredu ar 29 Mehefin.
Ar yr un pryd, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn datblygu model ar gyfer dyrannu niferoedd AGA uwchradd yn ôl gofynion fesul pwnc, gan weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ("y Cynllun") yn darparu cymorth a mentora yn ogystal â chyllid grant i wella ansawdd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchradd a gwella hyder yr athrawon wrth addysgu yn Gymraeg. Mae adroddiadau wedi dangos cynnydd o un gradd o leiaf mewn sgiliau ieithyddol erbyn canol y flwyddyn yn y rhan fwyaf o hyfforddeion ac mewn rhai achosion cafwyd mwy o welliant fyth.

Ers blwyddyn academaidd 2015/16, mae'r cohort ar y Cynllun hefyd wedi cefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r trefniadau Peilot i ddatblygu'r tystysgrifau cymwyseddau addysgu yn Gymraeg achrededig ar gyfer hyfforddeion cynradd ac uwchradd. Cymerodd cohortau uwchradd 2015/16 a 2016/17 y Cynllun ran yn y Peilot a oedd yn asesu'r hyfforddeion mewn tri maes allweddol: 1) eu sgiliau ieithyddol fel y'u nodwyd gan arsylwyr yn yr ystafell ddosbarth; 2)y datblygiad a welwyd yn sgiliau ieithyddol eu myfyrwyr; a 3) asesiad ysgrifenedig ffurfiol.

Mae OldBell wedi'u comisiynu i gynnal gwerthusiad o ddarpariaeth AGA drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi golygu cynnal cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid a myfyrwyr ynghyd â dadansoddi'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol bresennol.

Mae'r gwerthusiad yn edrych ar elfennau o'r Cynllun yng nghyd-destun ehangach darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i nodi cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth bresennol a gofynion ar gyfer darpariaeth AGA yn y dyfodol yng nghyd-destun y meini prawf achredu newydd. Dylai OB3 fod yn cyhoeddi eu canfyddiadau a'u argymhellion yr haf hwn.

Rydym wedi cyflwyno cymhelliant newydd ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sef Iaith Athrawon Yfory (IAY). Bydd hwn yn targedu myfyrwyr TAR uwchradd sy'n hyfforddi i addysgu pob arbenigedd pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, i gefnogi gwella ansawdd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchradd a gwella hyder yr athrawon wrth addysgu yn Gymraeg.

Cyfanswm cymhelliant ariannol IAY yw £5,000. Mae £2,500 yn daladwy pan gwblheir SAC yn llwyddiannus a £2,500 arall yn daladwy pan lwyddir i gwblhau cyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd Gymraeg neu ddwyieithog, neu ar lwyddo i gwblhau cyfnod sefydlu yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc mewn unrhyw leoliad uwchradd. Y cohort cyntaf i allu cael arian IAY fydd cohort blwyddyn academaidd 2018/19.

Ymgyrch Recriwtio AGA

Mae ymgyrch newydd greadigol am AGA wedi lansio ar y cyfryngau sy'n targedu darpar athrawon, gan hyrwyddo'r proffesiwn er mwyn recriwtio'r unigolion mwyaf galluog i'r maes. Dyma'r ymgyrch gyntaf ar y cyfryngau yn ymwneud â hyfforddiant athrawon yng Nghymru. Mae'r gwaith dadansoddi cyntaf yn dangos canlyniadau ardderchog eisoes ers ei lansio ddechrau mis Mai.

Rydym hefyd wedi dyrannu cyllid drwy 'Darganfod Addysgu' i gynnal gweithgareddau marchnata a chyfathrebu i ddenu mwy o ddarpar athrawon i addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gosod targedau cofrestru cenedlaethol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon - Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon

Model ystadegol yw'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon. Mae'n cael ei ddefnyddio i osod targedau cofrestru cenedlaethol ar gyfer AGA cynradd ac uwchradd, gan ystyried rhagdybiaethau allweddol gan gynnwys nifer y disgyblion; cymarebau disgybl-athro; nifer y boblogaeth a ragwelir yn genedlaethol; data ynghylch cofrestriadau athrawon oddi wrth Gyngor y Gweithlu Addysg; a data cywir am y nifer sy'n cwblhau AGA oddi wrth CCAUC.

Llwybrau eraill sy'n arwain at addysgu

Nid AGA yw'r unig ffordd o sicrhau cyflenwad digonol o athrawon. Yn 2017/18, roedd ugain o leoedd ar gyfer athrawon graddedig mewn ysgolion Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y llwybr hwn yn parhau i gynhyrchu

athrawon i'r sector cyfrwng Cymraeg, ac i wella sgiliau ein gweithlu presennol i'w galluogi nhw i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod angen ailystyried, ailwampio ac ailstrwythuro llwybrau eraill i faes addysgu os ydym am ddenu a chadw rhagor o raddedigion o ansawdd da i fod yn athrawon. Mae angen darparu llwybrau gyrfaoedd i helpu'r rhai sy'n newid gyrfa ac ar yr un pryd yn helpu i gynyddu amrywiaeth yn y proffesiwn.

Fel rhan o Raglen Newid AGA, rydym wedi adolygu'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch arfer gorau ar gyfer llwybrau amgen i fynd yn athrawon, gan ymchwilio'n drwyadl i'w potensial i gefnogi recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru.

Cyhoeddwyd datblygiad arloesol ym maes AGA gennym yn ddiweddar - cwrs TAR newydd, rhan-amser wedi ei leoli mewn ysgolion sy'n gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion. Bydd hwn yn cynnwys nifer o leoliadau gwaith. Y bwriad yw bod TAR rhan-amser yn galluogi hyfforddeion i barhau â'u hymrwymiadau presennol, gan gynnwys eu swyddi a'u hincwm wrth astudio'n rhan-amser i fod yn athro ar yr un pryd. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth hon ar gael ym Mlwyddyn Academaidd 2019/20 ac y bydd yn cymryd lle y Rhaglen Athrawon Graddedig.

Rydym yn disgwyl y bydd unrhyw ddarparwr sy'n Sefydliad Addysg Uwch (neu bartneriaeth o fwy nag un darparwr) yn gallu darparu cyfleoedd cyfartal i hyfforddeion yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yn ofynnol iddynt felly fod â'r gallu a'r arbenigedd (neu ymrwymiad i'w datblygu) i sicrhau bod darpariaeth, cefnogaeth a phrosesau asesu priodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn bendant, rhaid i'r darparwr allu darparu pob elfen o'r rhaglen yn newis iaith y dysgwr. Mae hyn yn cynnwys asedau sefydlog y cynnwys ar-lein ond hefyd y profiadau dysgu a chefnogaeth byw ac ar-lein.

Materion yn ymwneud â Chyflogaeth: Cyflogau ac amodau gwaith athrawon, recriwtio a chadw.

Cyflogau ac Amodau

Mae datganoli cyflogau athrawon yn cynnig llawer o gyfleoedd i ni ac rydym eisiau sicrhau ein bod yn ymdrin â hyn yn iawn. Nid yw system Lloegr ar gyfer cyflogau ac amodau athrawon ysgol yn briodol, yn berthnasol nac er budd y proffesiwn yng Nghymru bellach.

Mae creu strwythur amodau a thelerau da ar gyfer athrawon yn elfen hanfodol o'r gwaith o sicrhau bod gennym broffesiwn addysgu sydd wedi'i ysgogi, a system addysg o ansawdd uchel. Bydd datganoli cyflogau ac amodau yn ein galluogi i deilwra amodau a thelerau athrawon yn benodol ar gyfer y proffesiwn yng Nghymru.

Mae panel annibynnol wedi'i sefydlu o dan gadeiryddiaeth yr Athro Mick Waters i edrych ar gyflogau ac amodau presennol athrawon. Bydd y Panel yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cyflogau ac amodau athrawon er mwyn rhoi gwybodaeth am fanteision a rhwystrau'r system bresennol. Bydd hefyd yn nodi'r

mannau lle y mae angen ystyried polisi penodol i fynd i'r afael â phroblemau, gan gynnwys recriwtio a chadw athrawon. Bydd Adolygiad yr Athro Waters yn adrodd yn ôl wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Medi.

Ni ellir edrych ar hyn ar ei ben ei hun, fodd bynnag, a dyna pam rydym yn cymryd camau eraill i ddiwygio'r proffesiwn sy'n cynnwys lleihau biwrocratiaeth, Lleihau maint dosbarthiadau a hybu datblygu a dysgu proffesiynol.

Rydw i wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon i ystyried y materion hyn a pharatoi adroddiad arnynt, yn ogystal â herio, bod yn drwyadl a sicrhau ansawdd wrth lywio rhannau allweddol o'r broses o ddatblygu polisi a chynllunio'r gweithlu.

Recriwtio a chadw

Er bod nifer y swyddi gwag ar gyfer athrawon yng Nghymru yn parhau i fod yn gymharol isel, gwyddom y gellir cael trafferthion yn lleol ar brydiau o ran recriwtio ar gyfer addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â mewn pynciau neu gyfnodau penodol

Bydd y Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon yn llywio rhannau allweddol o'r gwaith o ddatblygu polisi cynllunio'r gweithlu; bydd hefyd yn darparu cyngor arbenigol ynghylch hynt y gwaith o ddiwygio Addysg Gychwynnol Athrawon a chefnogi'r gweithlu addysgu presennol, gan gynnwys y rhai yn sector yr Ysgolion Cymraeg.

Bydd y Bwrdd hefyd yn darparu cyngor arbenigol ar ddiwygio Addysg Gychwynnol Athrawon a chefnogi'r gweithlu addysgu presennol.

Dysgu Proffesiynol

Ni ellir cyflwyno ein cwricwlwm newydd heb weithlu addysg uchelgeisiol a gefnogir yn dda. Byddwn yn cefnogi arweinwyr ac ymarferwyr yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol eu hoes, sy'n parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meithrin yr wybodaeth a'r arbenigedd i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel pwnc. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y gweithlu'n cael ei baratoi i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n gweithio gyda'r consortia i ddatblygu rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol a rhanbarthol ar gyfer y Gymraeg i alluogi pob ymarferwr, gan gynnwys athrawon llanw, i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil ynghylch addysgu a dysgu'r Gymraeg yn effeithiol.

Rydym wedi ehangu'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg i ddarparu cyfleoedd i ymarferwyr ledled Cymru gael gafael ar hyfforddiant dwys yn y Gymraeg ac rydym wrthi'n comisiynu gwerthusiad o'r cynllun dros gyfnod o 2-3 blynedd.